| | |
|---|---|
| **Adrodd i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **7 Tachwedd 2024** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Barry Mellor: Aelod Arweiniol Cludiant a'r Amgylchedd / Paul Jackson: Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Andy Raynor: Rheolwr Priffyrdd, Asedau a Risg** |
| **Teitl** | **Adroddiad Adran 19 yn Ymchwilio i Lifogydd Storm Babet ar 20 Hydref 2023** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ar 20 Hydref 2023, arweiniodd cyfnod o law trwm at i ddŵr wyneb lifo i mewn i nifer o eiddo preswyl a masnachol yng ngogledd y sir. Ers hynny, mae swyddogion y cyngor yn ogystal â swyddogion o Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru wedi cynnal ymchwiliadau i'r llifogydd er mwyn deall y rhesymau dros pam ddigwyddodd y llifogydd, y tebygolrwydd ohono'n digwydd eto ac i asesu p'un a ellir rhoi'r mesurau ar waith i leihau llifogydd yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau mewn perthynas â llifogydd yn y sir a chyhoeddi adroddiad o ganfyddiadau'r ymchwiliad yn unol â hynny. Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno adroddiad ymchwilio llifogydd Adran 19 a'i ganfyddiadau i aelodau'r Pwyllgor a cheisio eu barn a'u sylwadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried p'un a yw'r Cyngor angen gweithredu neu ddiwygio eu harferion gwaith gyda'r bwriad o liniaru perygl llifogydd yn y sir yn y dyfodol.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Bu i ddyfodiad Storm Babet ar 20 Hydref 2023 nodi'r storm gyntaf ag enw i effeithio Cymru'n ystod y gaeaf. Roedd hi'n un o'r stormydd fwyaf garw i daro'r DU ers blynyddoedd, gan achosi llifogydd a difrod eang. Profodd Sir Ddinbych effeithiau'r Storm hon, gyda glaw trwm ac estynedig yn peri llifogydd i oddeutu 62 o gartrefi a 6 busnes. Roedd nifer o 'ddigwyddiadau agos' hefyd, a difrod sylweddol i'r isadeiledd priffyrdd. Serch hynny, nid yw'r ddau bwynt diwethaf yn rhan o'r adroddiad, oherwydd eu bod yn disgyn tu allan i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Ymchwiliadau Llifogydd Adran 19.

4.2 Yn dilyn y digwyddiad, cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) ymarfer cnocio drysau ar eiddo a oedd wedi adrodd llifogydd. Nododd yr ymarfer bod 62 cartref wedi profi llifogydd mewnol yn y mannau byw, a bod 7 busnes wedi cau dros dro o ganlyniad i lifogydd mewnol.

Achoswyd y llifogydd gan gyfnod o law trwm ar ddigwyddiad y storm ar yr 20fed, gan arwain ar lifogydd afonydd a ffosydd, a dŵr wyneb. Bu i ddraen Maes y Gôg yn y Rhyl ac Afon Ffyddion yn Nyserth lifogi, gan achosi i nifer o eiddo lifogi; nid oedd systemau dŵr arwyneb a charthffosiaeth yn gallu ymdopi ac o ganlyniad bu llifogydd yn nifer o eiddo yn y Rhyl, Prestatyn a Llanelwy. Roedd ffactorau eraill yn cynnwys rhwystrau i systemau draenio'r priffyrdd, gan achosi i systemau flocio a llifogi eiddo.

4.3 Gydag phrif afonydd, dŵr arwyneb a systemau carthffosiaeth, yn ogystal â systemau draenio priffyrdd yn achosi'r llifogydd, mae cyfran helaeth o'r gwaith ymchwilio wedi cynnwys cydweithio'n agos gydag Awdurdodau Rheoli Risg eraill, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, gan adeiladu ar y perthnasau gwaith agos a ddatblygwyd dros y degawd diwethaf.

4.4 Mae adroddiad Adran 19 y Cyngor wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad yn fanwl, gan gynnwys llawer o ddata technegol mewn perthynas â dalgylchoedd. Mae Adran 7 yr adroddiad yn canolbwyntio ar ddigwyddiad yr 20fed, gydag Adran 8 yn darparu crynodeb o'r gwelliannau a nodwyd, yn ôl y gofyn i sicrhau bod risg llifogi'n cael ei reoli'n briodol yn y dyfodol, yn lleoliadau a adroddodd lifogydd.

## 5 Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Gan fod hwn yn ymchwiliad, nid oes angen ei gysylltu â’r Blaenoriaethau Corfforaethol, er bod argymhellion yn ceisio lliniaru llifogydd yn y dyfodol, sydd yn unol â’r Cynllun Corfforaethol i liniaru ac ymdopi ag effeithiau newid hinsawdd drwy ddarparu cynlluniau i leihau’r risg o lifogydd arfordirol a mewndirol.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae costau cynnal gwaith archwilio llifogydd y Cyngor yn cael eu diwallu drwy’r cyllidebau refeniw presennol. Dim costau ychwanegol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Nid yw’r adroddiad hwn yn ceisio penderfyniad, felly ni chynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar Les. Mae’r adroddiad hwn yn ymchwiliad i ddigwyddiad o lifogydd, fel y manylwyd yn adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae adroddiad ymchwiliad i lifogydd adran 19 yn ddatganiad cyhoeddus o amgylchiadau digwyddiad o lifogi, a pha rolau sydd gan bob parti wrth reoli’r risgiau.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae’r ymchwiliad i’r llifogydd wedi cynnwys trafodaethau, cyfarfodydd a chyfnewid gohebiaethau gyda Chynghorwyr Sir ac aelodau o’r cymunedau a oedd wedi dioddef llifogydd. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion o Awdurdodau Rheoli Risg eraill, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae’r gost o baratoi’r ymchwiliad a’r adroddiad yn cael ei fodloni gan gyllidebau presennol. Mae adroddiad ymchwilio i lifogydd Adran 19 yn rhoi manylion o’r gwelliannau a’r camau gweithredu sydd ei hangen i liniaru digwyddiadau o’r fath yn y dyfodol i bawb, gan ddiogelu cyllid ar gyfer unrhyw waith angenrheidiol.

# 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn y sir a dyletswydd oblygedig dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i wella ei ddealltwriaeth o berygl llifogydd. Os yw'r Cyngor yn methu â gwneud hyn, gall wneud niwed i'w enw da a bydd y cymunedau sydd wedi dioddef llifogydd yn parhau i fod mewn perygl.

# 11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae gan y Cyngor bwerau mewn perthynas â pherygl llifogydd a materion sy'n ymwneud â draenio dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) a'r Ddeddf Draenio Tir (1991).

11.2 Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 200 ac Adran 7.2.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall Archwilio "ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal neu drigolion y Cyngor".